cyngor

cyngor ar bopeth

Haf
2009

Newyddion gan weithwyr ar draws y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth



Estyn allan

Cyngor ar Bopeth yn union lle'r ydych angen iddynt fod

Gwirfoddolwyr ifanc yn rhoi dyled o dan y sbotlamp

Dim mwy o wadu cyfiawnder

Ein hymgyrch lwyddiannus i gau bwlch y Tribiwnlys Cyflogaeth

Cynnwys

Newyddion a Digwyddiadau **3**

Partneriaeth / Estyn allan 4–5

Polisi / Ymgyrchoedd **6**

Codi arian **7**

Ar draws y gwasanaeth **8–9**

Newyddion prosiectau **10–11**

Wyddoch chi? **12**

Golygyddol

Cylchlythyr chwarterol yw *Cyngor* i ddod â'r holl newyddion gan weithwyr ar draws y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth atoch.

Cynhyrchwyd gan
Citizens Advice
Myddelton House
115–123 Pentonville Road
Llundain N1 9LZ
Rhif ffôn: 020 7833 2181
adviceguide.org.uk
citizensadvice.org.uk

Rhagair

Croeso i rifyn cyntaf *Cyngor* sy'n dod â newyddion gan weithwyr ar draws y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth atoch.

Bydd y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn 70 oed ar 4 Medi 2009. Mae *Cyngor* yn cael ei lansio fel rhan o raglen sy'n para blwyddyn o weithgareddau hyrwyddo, dathlu a chodi arian ar lefel genedlaethol a lleol.

Agorwyd drysau'r 200 canolfan gyntaf i gynnig gwasanaeth argyfwng pan dorrodd yr Ail Ryfel Byd allan. Er bod yr oes a'r problemau wedi newid ers hynny efallai, mae'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth mor hanfodol a pherthnasol ag erioed, a phob amser yn barod i ymateb i anghenion newydd.

Mae'r rhifyn cyntaf hwn yn pwysleisio sut y mae'r canolfannau'n rhagweithiol o ran estyn eu gwasanaeth allan i'r bobl sydd eu hangen fwyaf arnynt drwy eu gwaith estyn allan a phartneriaeth. Hefyd yn y rhifyn hwn, gallwch ddarllen am ein llwyddiant polisi diweddar drwy ein hymgyrch ***Gwadu cyfiawnder*** ysbrydoledig a sut y mae'r prosiect **Cyngor yn newid bywydau ifanc** yn estyn allan at bobl ifanc gyda phroblemau dyled drwy wneud defnydd arloesol o ffilmiau a gynhyrchir gan wirfoddolwyr ifanc.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau ei ddarllen.

Hilary Watkins

Y Parch. Hilary Watkins
Cadeirydd, Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor ar Bopeth

I dderbyn e-fersiwn o'r cylchlythyr hwn, anfonwch eich manylion cyswllt at **thecitizen@citizensadvice.org.uk**

A oes gennych stori Cyngor ar Bopeth yr hoffech ei rhannu?
Anfonwch eich straeon newyddion at Sally Littlecott yn thecitizen@citizensadvice.org.uk

Seneddwr y Flwyddyn 2009

Mae'r Aelod Seneddol Llafur Ian McCartney wedi'i enwi'n Seneddwr y Flwyddyn 2009 mewn derbyniad yn Nhŷ'r Cyffredin.

Wrth dderbyn y wobr, meddai'r Gwir Anrhydeddus Ian McCartney AS:

"Mae'n fraint ac anrhydedd derbyn y wobr yma, nid am ei bod wedi'i rhoi i mi, ond oherwydd y'i rhoddir gan Gyngor ar Bopeth, mudiad yr wyf wedi'i edmygu'n aruthrol drwy gydol fy mywyd cyhoeddus"

Mae'r wobr yn cydnabod ei ymrwymiad i weithio dros faterion lleol sy'n effeithio ar gwsmeriaid Cyngor ar Bopeth ac am chwarae rhan allweddol mewn codi proffil ein hymgyrch *Gwadu cyfiawnder* (gweler tudalen 6).

Enwebu Cadeirydd newydd Cyngor ar Bopeth

Bydd John Gladwin, sy'n ymddeol fel Esgob Chelmsford, yn cael ei gynnig fel Cadeirydd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor ar Bopeth sydd i'w gynnal yn Efrog ar 8 Medi 2009.

Wrth dderbyn yr enwebiad, dywedodd John ei fod yn fraint aruthrol gan ddweud "Yn y cyfnod anodd hwn mae angen Cyngor ar Bopeth mwy nag erioed a rhaid inni weithio'n ddiflino i sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau i helpu ein dinasyddion, i sefyll dros gymdeithas gyfiawn a theg ac i weithio dros ddyfodol gwell i bawb."

Ar ôl proses ddethol drylwyr ac agored, dewiswyd John am ei brofiad helaeth o lywodraethu a'r sector gwirfoddol yn ogystal â'i ymrwymiad i eiriol dros faterion cyfiawnder a chydraddoldeb.

O'r trelar ceffylau i'r ffair geffylau

Ers y dyddiau cynnar o roi cyngor o ystafelloedd ffrynt pobl a threlars ceffylau wedi eu haddasu, mae'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth bellach yn rhoi cyngor i bobl o fwy na 3,300 o lefydd ar draws Cymru a Lloegr.

Nid ar y stryd fawr yn unig mae eich canolfan agosaf, rhoddir cyngor hefyd drwy sesiynau estyn allan mewn canolfannau cymunedol, swyddfeydd gofal iechyd, swyddfeydd cyngor, desgiau llys, mewn carchardai a chanolfannau prawf.
I sicrhau bod ein gwasanaeth yn cyrraedd y grwpiau mwyaf agored i niwed, anodd eu cyrraedd a chymdeithasol alltud, mae'r canolfannau wedi meddwl am syniadau arloesol fel bo'r gwasanaeth yn cyrraedd y cymunedau mwyaf anghenus. Gwnaed gwaith newydd sbon gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr i godi ymwybyddiaeth o'r gwahaniaethu a wynebir gan y bobl hyn ac i wella eu mynediad at gyngor.

Ar ôl darganfod bod yn well gan eu cymunedau Sipsiwn a Theithwyr lleol ddibynnu ar deulu a ffrindiau am gyngor, dyfeisiodd

Dyddiau cynnar i'r gwasanaeth CAB

CAB Plymouth gwrs hyfforddiant wyth diwrnod yn unswydd i helpu'r gymuned i wella ansawdd eu cyngor. Mae'r ganolfan yn cynnig cymorth dros y ffôn, sesiynau adolygu rheolaidd a **Adviceguide.org.uk**. O ganlyniad, mae gan un Sipsi ddiddordeb mewn darparu gwasanaeth CAB estyn allan symudol, mae un arall wedi gwirfoddoli i fod yn ymddiriedolwr ac mae'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn cynnig darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i ganolfannau ledled y wlad.

Yn ddiweddar, mae CAB Wrecsam wedi cyfrannu at wneud, ffilmio a chynhyrchu DVD am ddiwylliant Teithiwr i chwalu'r mythau. Mae'r DVD yn rhan o hyfforddiant amrywiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i'w staff ond fe'i defnyddir gan fudiadau allanol hefyd.

Yn 2008, aeth y prosiect sy'n cynghori cymunedau Sipsiwn a Theithwyr (CAGAT) ar ymweliad i ffair geffylau Stow i hyrwyddo eu llinell gynghori i Sipsiwn a Theithwyr ar draws Oxfordshire, Buckinghamshire a Berkshire. Partneriaeth yw'r prosiect rhwng CAB West Oxfordshire, Parents and Children Together (PACT), CAB Slough, CAB Maidenhead a CAB Milton Keynes, a chaiff ei ariannu gan Gronfa'r Loteri Fawr.

Canolfannau'n bwrw iddi

Dod at ein gilydd

Drwy ddatblygu partneriaethau effeithiol gyda mudiadau gwirfoddol eraill rydym wedi gallu cynnig cyngor wedi'i dargedu i grwpiau penodol.

Partneriaeth arloesol yw'r Gwasanaeth Cyngor ar Fudd-daliadau ac Arian (BMAS) rhwng y Lleng Frenhinol Brydeinig, Cronfa Les y Llu Awyr Brenhinol a Chyngor ar Bopeth i helpu staff presennol a blaenorol yn y Lluoedd, a'u teuluoedd.

Ers ei lansio ddwy flynedd yn ôl, mae BMAS wedi helpu mwy na 5,000 o gwsmeriaid i ennill mwy na £9 miliwn drwy hawlio budd-daliadau, dileu dyledion ac mewn grantiau.

Mae Cyngor ar Bopeth, mewn partneriaeth â Chymorth Canser Macmillan, wedi bod yn gweithio i wella mynediad at gyngor i bobl gyda chanser, eu gofalwyr a'u teuluoedd.

Bellach mae 50 o ganolfannau'n cyfrannu at y prosiect sydd wedi codi £21.3 miliwn mewn enillion budd-dal i 12,672 o gwsmeriaid.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar bobl sydd angen ein help ni arnynt, rydym hefyd yn cefnogi cynghorwyr yn y rheng flaen drwy ymuno â mudiadau cynghori eraill. Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol ar Gyngor i'r Digartref (NHAS), sy'n bartneriaeth rhwng Shelter a Chyngor ar Bopeth, yn cynnig gwasanaeth ymgynghori a hyfforddiant i gynghorwyr ar broblemau digartrefedd a thai.

Am fwy o wybodaeth,
gweler **nhas.org.uk**

Cyd-fenter yw'r prosiect Working Together for Advice, wedi'i hariannu gan y Gronfa Loteri Fawr, rhwng aelodau o'r Advice Services Alliance (ASA) i wella gwasanaethau cynghori yn Lloegr.

Am fwy o wybodaeth,
gweler **asauk.org.uk**

> ASTUDIAETH ACHOS

Mae gan y cwsmer, mab 22 oed i gyn Gurkha, anawsterau dysgu difrifol. Helpodd y ganolfan y gŵr ifanc hwn i gael mwy o lwfans byw i'r anabl, lwfans gofal i'w fam, gan godi eu hincwm blynyddol o £4,170 a £8,380 mewn ôl-arian lwfans.

> ASTUDIAETH ACHOS

Roedd cwsmer, a oedd wedi cael diagnosis o ganser prostad, yn byw ar ei ben ei hun mewn cartref modur, ac yn crafu byw ar bensiwn galwedigaethol o tua £50 yr wythnos. Helpodd y ganolfan ef i hawlio £469.14 yr wythnos yn fwy mewn budd-daliadau ac i ddod o hyd i fflat wedi'i rentu'n breifat gyda grant gan Macmillan a benthyciad gan yr awdurdod lleol.

Am fwy o wybodaeth,
gweler **citizensadvice.org.uk (partnership working)**

Dim mwy o *wadu cyfiawnder*

Llwyddodd ymgyrch wyth mlynedd gan Gyngor ar Bopeth i gau bwlch y Tribiwnlys Cyflogaeth i gyrraedd y rhestr fer am Ymgyrch Sector Gwirfoddol y Flwyddyn yng ngwobrau nodedig y *Public Affairs News*.

Ar sail tystiolaeth gan ganolfannau, mae'r adroddiad *Gwadu cyfiawnder* yn tynnu sylw at golledion posibl o tua £4.5 miliwn i rai o'r gweithwyr mwyaf agored i niwed, drwy fod eu cyflogwyr yn gwrthod talu'r arian a ddyfernir iddynt mewn Tribiwnlys Cyflogaeth.

O ganlyniad i'r adroddiad ac ymgyrch lobio ddwys, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi mesurau newydd caeth i helpu i orfodi cyflogwyr i dalu'r arian sy'n cael ei ddyfarnu.

Yn siarad yn nerbyniad Seneddwr y Flwyddyn, meddai'r Gwir Anrhydeddus Ian McCartney AS:

> *"Mae'r ymgyrch Gwadu cyfiawnder wedi'i hennill ac o ganlyniad bydd miloedd o weithwyr sydd wedi cael eu trin yn wael yn awr yn ennill cyfiawnder a iawndal ariannol a oedd yn cael ei wrthod iddynt o'r blaen. Da iawn Cyngor ar Bopeth"*

Am fwy o wybodaeth,
gweler **citizensadvice.org.uk (campaigning for change > policy / campaign publications)**

Pontio'r gagendor

Ym mis Mai cynhaliwyd digwyddiad a drefnwyd gan Gyngor ar Bopeth mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Cyngor Ariannol, Sefydliad y Cynghorwyr Ariannol ac AdviceUK i ddod â'r sector cynghori a'r diwydiant credyd at ei gilydd. Roedd y digwyddiad, a fynychwyd gan fwy na 70 o bobl, yn llwyddiant ysgubol ac mae digwyddiad mwy tebyg eisoes yn cael ei drefnu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Roedd pwyslais y diwrnod ar feithrin perthynas a chyd-ddealltwriaeth. Cafwyd dangosiadau gan y sector cynghori o amrywiaeth eang a safon uchel gwaith yr asiantaethau cynghori ar ddyledion, sy'n wasanaethau holistig a di-dâl, a'r hyn y maent yn ei wneud i ymdopi â'r dirwasgiad. Cynhaliwyd gweithdy gan M&S Money yn rhoi darlun gwych o arferion gorau o bersbectif credydwr.

O ganlyniad i'r diwrnod, mae Cyngor ar Bopeth yn cynhyrchu *Creditors guide to Legal Services Commission (LSC) funding and debt advice* i esbonio sut y mae'n effeithio ar wasanaethau gwaith achos cynghori ar ddyledion. Mae llawer o weithdy M&S Money eisoes wedi'i ymgorffori mewn hyfforddiant i gynghorwyr.

Adroddiadau diweddar

Mae ***Legal aid at 60*** yn dathlu rôl hanfodol cymorth cyfreithiol sifil dros y 60 mlynedd diwethaf.

Mae ***Out of order*** yn edrych ar y defnydd a wneir o orchmynion codi tâl a gorchmynion gwerthu yn y broses o gasglu dyledion.

Mae ***Supporting justice*** yn tynnu sylw at y diffyg cynrychiolaeth gyfreithiol wedi'i ariannu'n gyhoeddus mewn Tribiwnlysoedd Cefnogi Lloches.

Mae ***Let down*** yn galw am roi terfyn ar godiadau tâl diwahaniaeth gan asiantau gosod.

Mae ***Hung up*** yn trafod y gost o ffonio canolfannau galwadau'r llywodraeth o ffonau symudol. Gweler adroddiad gan ganolfannau yng ngogledd Lloegr **leedscab.org.uk /forms/hungupreport.pdf**

Lleoliad y cinio gala

Dowch i ginio atom

Ar 4 Medi 2009 bydd y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn dathlu 70 mlynedd o gyngor sydd wedi newid bywydau ac yn cychwyn ar raglen blwyddyn o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth a chodi arian i nodi'r digwyddiad.

Mae Cyngor ar Bopeth wedi datblygu ystod cyffrous o gyfleoedd noddi fel bod mudiadau eraill yn gallu cyfrannu at a chefnogi ein gwaith hanfodol mewn cymunedau ar draws Cymru a Lloegr.

Rydym yn chwilio am noddwyr a phen-noddwyr i gynnal cinio gala i godi arian yng ngwesty'r Dorchester yn Ionawr 2010.

Bydd y cinio hefyd yn lansio gwobrau newydd Cyngor ar Bopeth a fydd, gyda chategorïau yn cynnwys 'Y newid polisi gorau gan y Llywodraeth' a'r 'Credydwr neu'r casglwr dyledion gorau' yn ddiau yn cyfrannu at noson o drafodaeth fywiog.

Mae pecynnau noddi eraill yn cynnwys trafodaeth bolisi proffil uchel ac ymgyrch hysbysebu eang. Mae'r rhain yn gyfle prin i'ch mudiad gael ymuno ag elusen gyda brand sy'n cael ei gydnabod gan 96 y cant o bobl (BMRB, 2009) ac a ddewiswyd gan y cyhoedd fel y mwyaf cymwynasgar, cyfeillgar a pharchus o'r 22 o brif elusennau cenedlaethol (nfpsynergy, 2009).

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Rachel Morrison ar 020 7833 7051 neu e-bostiwch **rachel.morrison@citizensadvice.org.uk** neu ewch i **citizensadvice.org.uk (support us)**

Partneriaethau lleol i ganolfannau

I gydnabod y sefyllfa economaidd anodd ar hyn o bryd a'r galw cynyddol am wasanaethau cynghori, mae nifer o ganolfannau yn derbyn cymorth ychwanegol gan randdeiliaid allweddol i wella mynediad pobl at gyngor ac i gwrdd ag anghenion trigolion lleol. Isod rhoddir dwy enghraifft o Lincolnshire a Sutton.

Canolfannau'n paratoi ar gyfer newidiadau'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Bydd newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae'r CGC yn dyfarnu contractau wedi eu cyflwyno ar gyfer contractau newydd o Ebrill 2010 ymlaen.

Mae gan tua 230 o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth gontractau gyda'r Comisiwn, gwerth tua £25 miliwn y flwyddyn. Mae'r contractau hyn yn darparu cyngor arbenigol ar bethau fel dyled, budd-daliadau, cyflogaeth, mewnfudo a thai.

Bydd angen i ganolfannau weithio gyda'i gilydd, a gyda mudiadau eraill, i greu partneriaethau yn barod at bryd y bydd y Comisiwn yn cyflwyno ei gynlluniau manwl.

Cyngor ar bresgripsiwn > yn Lincolnshire

Yn Lincolnshire, mae prosiect arloesol i gynyddu incwm pobl hŷn ac oedolion agored i niwed wedi cynhyrchu bron i £2 miliwn mewn budd-daliadau anabledd.

Mae'r prosiect Cyngor ar bresgripsiwn, sydd wedi'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Lincolnshire, yn golygu bod meddygon a staff gofal iechyd eraill yn llofnodi 'pad presgripsiwn' arbennig yn cyfeirio'r claf i dderbyn cyngor ar fudd-daliadau ac ariannol.

Mae'r presgripsiwn yn rhoi'r claf mewn cysylltiad uniongyrchol yn syth bin gyda gweithiwr achos CAB. Mae rhywbeth a ddechreuodd fel peilot yn CAB Boston wedi ehangu'n sydyn iawn i gynnwys pob un o'r saith canolfan yn Lincolnshire.

Mae'r prosiect wedi bod mor llwyddiannus fel bod ei gyllid wedi'i gynyddu i gyflogi gweithiwr achos llawn amser ym mhob canolfan.

Delio â'r dirywiad economaidd > yn Sutton

Mae CAB Sutton wedi bod yn gweithio'n agos â'i awdurdod lleol i godi ymwybyddiaeth o rôl hanfodol y ganolfan mewn helpu'r gymuned leol ar yr adeg anodd hon.

Mae Cyngor Sutton yn helpu'r tîm cyngor ar ddyledion i ganolbwyntio ar weld mwy o gwsmeriaid drwy secondio gweithiwr gweinyddol i'r ganolfan. I ddechrau am gyfnod o ddau fis, mae hyn wedi profi i fod mor llwyddiannus fel bod y cyfnod wedi'i ymestyn tan Fawrth 2010.

Mae ymarfer cysgodi swyddi gyda uwch aelodau o'r cyngor wedi gwella dealltwriaeth rhwng y ganolfan a'r cyngor ac wedi rhoi cyfle i gyfnewid syniadau ynghylch sut orau i gyfuno gwasanaethau. Gellir lawrlwytho copïau o'r daflen Cyngor ar Bopeth, *Awdurdodau lleol a'r dirwasgiad*, o **citizensadvice.org.uk (publications > local authorities, Citizens Advice service and the recession)**

Gwirfoddolwyr ifanc yn rhoi dyled o dan y sbotlamp

Stori Adila

"Mae'n gylch dieflig – rwyf yn anhapus felly rwyf yn siopa ond wedyn, oherwydd y ddyled, rwyf yn anobeithio mwy fyth. Rwyf yn teimlo fy mod yn gaeth mewn caets na allaf ddianc ohono"

Stori Scooby

Dyma stori Adila. Mae Adila'n cyfaddef ei bod yn siopaholig ac mae wedi defnyddio benthyciadau myfyrwyr, arian gorddrafft a chardiau'r siopa mawr i lenwi bwlch ond mae'n fwy anhapus fyth o'r herwydd.

Fel rhan o'r prosiect Cyngor yn newid bywydau ifanc, mae Adila a Scooby, y ddau yn aelodau o fforwm Ieuenctid Cyngor ar Bopeth, wedi troi eu profiadau o fynd i ddyled yn ddwy ffilm fer i annog pobl ifanc eraill i ofyn am gyngor i ddod allan o ddyled ac i aros allan.

Cynhyrchwyd y ddwy ffilm gan Bold Creative, asiantaeth ieuenctid sydd wedi ennill gwobr gan BAFTA, ac mae'r ddwy ar gael ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol a gwefan Cyngor ar Bopeth – **citizensadvice.org.uk (about us > advice changing young lives)**

Partneriaeth tair blynedd yw'r prosiect Cyngor yn newid bywydau ifanc rhwng Cyngor ar Bopeth a YouthNet, gyda chyllid gan y Sefydliad HBOS. Mae'r prosiect yn rhoi cyngor ariannol i rai rhwng 16 a 25 oed ar-lein (drwy wefan YouthNet – **TheSite.org**) ac ar ffonau symudol.

Erbyn Medi 2010, bydd y rhaglen wedi helpu tua 500,000 o bobl ifanc drwy roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau gwybodus am arian.

Am fwy o wybodaeth, gweler **citizensadvice.org.uk (volunteer)**

helpu eich hun...

Drysau canolfannau ar agor am hirach

Wrth i'r dirwasgiad wasgu a'r galw am gyngor yn cynyddu, mae canolfannau'n agor eu drysau am hirach fel rhan o'r prosiect Mwy o oriau cynghori sydd wedi'i ariannu gan £10 miliwn gan yr Adran Fusnes, Arloesi a Sgiliau. Rhwng Chwefror ac Ebrill 2009, cafodd 21,000 awr ychwanegol o gyngor ei roi ar draws 494 o leoliadau, a recriwtiwyd 1,575 yn fwy o wirfoddolwyr.

Mae'r prosiect hefyd yn cynhyrchu cyfres o daflenni helpu'ch hun. Mae'r ddwy gyntaf, *Helpu eich hun....i roi trefn ar eich dyledion* a *Helpu eich hun....i gael mwy o arian*, gan gynnwys fersiynau dwyieithog (Cymraeg / Saesneg) ar gael o'r canolfannau neu gallwch eu lawrlwytho o **adviceguide.org.uk**.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Tania Bashar, tania.bashar@citizensadvice.org.uk

Gallu ariannol

Ni fu erioed mwy o angen gwasanaethau i gynghori pobl ar ddyledion ac arian a chydag arian gan y Prudential, mae Cyngor ar Bopeth wedi gallu datblygu partneriaethau ac ennill cyllid i amrywiaeth o brosiectau.

Mae un-deg-pedwar o **fforymau gallu ariannol** wedi eu sefydlu ar draws Cymru a Lloegr, wedi eu cefnogi gan Sefydliad Banc America. Mae'r fforymau wedi cyrraedd bron i 500 o fudiadau cymunedol ac wedi ennill mwy na £800,000 o gyllid cenedlaethol.

Bydd prosiect **gallu ariannol** newydd yn Nwyrain Lloegr yn darparu hyfforddiant a chymorth i chwilio am waith i oedolion di-waith a gweithwyr rheng flaen, wedi'i ariannu gan Awdurdod Datblygu Dwyrain Lloegr a Chronfa Gymdeithasol Ewrop.

Lansiwyd y prosiect **MoneyActive** yn swyddogol ym mis Mai yn Nhŷ'r Cyffredin. Nod y prosiect, gyda chyllid o £3 miliwn gan Nationwide, yw helpu pobl i drin, benthyca ac arbed arian yn well drwy recriwtio 1,300 o wirfoddolwyr i gynnal sesiynau addysg ariannol i 100,000 o bobl dros y 3 blynedd nesaf.

Mae **Horizons**, sydd wedi'i gefnogi gan Barclaycard, yn cynnig hyfforddiant llythrennedd ariannol a chymorth a chyngor unigol ar broblemau ariannol a dyledion i rieni sengl a'r gweithwyr rheng flaen sy'n eu helpu.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae mwy na 37,000 o bobl wedi cael budd o'r rhaglen Horizons – Your Money.

Am fwy o wybodaeth, gweler **yourhorizons.com**

Adborth o'r hyfforddiant Horizons Your Money

"Mi wnes i fwynhau'n arw – digon o hwyl. Rwyf wedi dysgu llawer ac am ddysgu mwy" (defnyddiwr gwasanaeth)

Arweiniad ariannol

Mae Cyngor ar Bopeth ar fin bod y darparwr arweiniad ariannol mwyaf yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr fel rhan o gynllun arbrofol Arweiniad Ariannol arbrofol. Bydd y prosiect, sydd wedi'i gyd-ariannu gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (IFA) a'r Trysorlys, yn rhoi cymorth di-dâl cynhwysfawr i bobl ar ystod o faterion ariannol.

Am fwy o wybodaeth, gweler moneymadeclear.fsa.gov.uk

Am fwy o wybodaeth, gweler citizensadvice.org.uk (partnership working)

MoneyPlan

Mae'r prosiect MoneyPlan wedi helpu dros fil o bobl i ddelio â 2,400 o broblemau ariannol gyda chymorth cynghorwyr ariannol annibynnol gwirfoddol. Mae'r prosiect, sydd wedi'i ariannu gan Barclays, Aegon UK a'r Resolution Foundation, yn helpu pobl i ddeall a chynllunio eu materion ariannol heb gymell prynu unrhyw wasanaeth.

"Cefais gyngor cam wrth gam ar beth i'w wneud - gwych"

"Helpodd ni i benderfynu beth i'w wneud – byddwn yn sicr yn mynd atynt eto"

> ASTUDIAETH ACHOS

Roedd cwpl gyda morgais cyntaf wedi cael bil annisgwyl gan y cwmni yn gofyn am £700 mewn ffioedd, yna llythyr gan y llys yn ei drin fel dyled. Helpodd yr IFA hwynt i ysgrifennu llythyr o gŵyn at y cwmni ac yna at yr ombwdsmon ariannol. Roeddent yn teimlo bod yr IFA wedi bod yn 'wych' drwy roi cyngor cam wrth gam ar beth i'w wneud, a'i gadarnhau mewn llythyr. Roeddent yn teimlo bod yr IFA wedi bod yn anhepgor i ddatrys y mater.

dywedodd

87%

eu bod wedi dysgu mwy am sut i helpu eu hunain yn y dyfodol

dywedodd

81%

ei fod wedi bod yn 'gymorth mawr'

Gwerthusiad annibynnol o MoneyPlan y Cyngor ar Bopeth, Mai 2009

Wyddoch chi?

Ystadegau canolfannau 2008/09:

6 miliwn
o broblemau newydd wedi cael cyngor

2 miliwn
o gwsmeriaid wedi cael eu gweld

8.8 miliwn
wedi ymweld ag Adviceguide.org.uk

1.9 miliwn
o broblemau dyled wedi eu datrys

£16,971
y ddyled gyfartalog sydd gan gwsmeriaid dyled CAB

93 mlynedd
Yr amser a gymerai i dalu'r swm hwn yn ôl ar gyfradd y gallai'r cwsmer ei fforddio

114%
y cynnydd mewn ymholiadau colli gwaith

61%
y cynnydd mewn ymholiadau am lwfans ceisio gwaith

49%
y cynnydd mewn ymholiadau am ddyledion morgais a benthyciadau ar sail eiddo

Yn y rhifyn nesaf:

Ymunwch â ni i ddathlu ein pen-blwyddyn 70 oed

70 mlynedd o gyngor i newid bywydau – yr holl newyddion o gynhadledd flynyddol Cyngor ar Bopeth a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Newyddion o'r Eisteddfod.

Arolwg elusen ddelfrydol

Holwyd dros 2,000 o bobl i ofyn iddynt ba nodweddion 'delfrydol' y dylai fod gan elusen. Allan o 22 elusen, daeth Cyngor ar Bopeth i'r brig am fod:

- yn gymwynasgar
- yn gyfeillgar
- yn wybodus
- yn barchus
- yn deg
- yn annibynnol.

Credai 77% o bobl fod Cyngor ar Bopeth yn cynnig cyngor am ddim sy'n wirioneddol annibynnol a di-duedd.

Credai 67% fod Cyngor ar Bopeth yn darparu gwybodaeth ddiweddar, ddibynadwy ac o'r safon uchaf.

Cafodd yr arolwg cenedlaethol hwn ei *wneud ar-lein gan nfpSynergy ym mis Mai 2009.*

Ein hegwyddorion

Mae'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor annibynnol, di-duedd a di-dâl i bawb ar eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu.

Ein nodau

- Rhoi'r cyngor sydd ei angen ar bobl ar y problemau sydd ganddynt.

- Gwella'r polisïau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol y Gymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth.
Rhif elusen gofrestredig 279057